

Cyflawni ar y Cyd

Rhannu Egwyddorion – Rhannu Blaenoriaethau



Cytundeb partneriaeth rhwng y Trydydd Sector a
Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
2012 - 2015

Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno'r trydydd Cytundeb Partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Trydydd Sector sy'n egluro sut y bydd y Trydydd Sector yng Nghonwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydweithio. Mae'n cynnwys egwyddorion ac ymrwymadau a rennir i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y ddau bartner er budd dinasyddion a chymunedau yn y Sir.

Nid yw'r cytundeb hwn yn ofyniad statudol; rydym wedi dewis ei ddatblygu oherwydd yr ewyllys da rhwng y ddau bartner a'r awydd i gydweithio'n well.

Mae'r Trydydd Sector yng Nghonwy yn cyfrannu'n helaeth i gymunedau'r Sir. Mae 1,129 o grwpiau gwirfoddol/cymunedol yng Nghonwy, cafwyd ceisiadau am £1,796,861 o gyllid gan grwpiau yn y sector gwirfoddol a chofrestrwyd 300 o wirfoddolwyr newydd gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy yn 2011/12.

Bydd y cytundeb hwn a'r gwaith a gyflawnir drwyddo yn ein helpu i barhau i gynorthwyo a deall ein gilydd fel y byddwn yn gallu ymateb i'r heriau sydd o'n blaen.

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, sy'n rhoi pwysau sylweddol ar gyllid y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, mae'n bwysicach nag erioed i ni gydweithio'n dda. Nod y cytundeb hwn yw ein helpu i wneud hynny – drwy ddatgan sut y byddwn yn cydweithio yn y dyfodol.

Byddem yn hoffi cael cefnogaeth i'r egwyddorion gan staff a gwirfoddolwyr yn y Trydydd Sector ac yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'u gweld yn cymryd rhan wrth ddatblygu'r meysydd gwaith newydd sydd wedi'u nodi yn y cytundeb hwn. Mae mwy o fanylion yn yr adran "Sut i gymryd rhan".

Edrychwn ymlaen at gydweithio i roi'r cytundeb hwn ar waith.

Iwan Davies, Prif Weithredwr - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

a

Wendy Jones, Prif Swyddog - Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy



Cynnwys

	Tudalen
1. Pam y mae angen Cytundeb Partneriaeth?	4
2. Yr 8 Egwyddor a Rennir	5
3. Troi Egwyddorion a Rennir yn Flaenoriaethau a Rennir	6
4. Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth	7
5. Sut i gymryd rhan	8
Atodiadau	
Atodiad A – Dulliau effeithiol o ddatrys anghydfodau	9
Atodiad B – Proses Datrys Anghydfodau	10
Atodiad C – Ffurflen Llofnodi	11

Pam y mae angen cytundeb partneriaeth?

a. Beth yw cytundeb partneriaeth?

Mae'r cytundeb partneriaeth yn gytundeb gwirfoddol sy'n disgrifio'r ymrwymiad gan y Trydydd Sector a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gydweithio ar sail egwyddorion a rennir a blaenoriaethau a rennir. Mae'n darparu fframwaith clir i wella'r berthynas rhwng y partneriaid er budd dinasyddion a chymunedau Conwy.

b. Y Cytundeb Partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Trydydd Sector

Cyhoeddwyd yr ail Gytundeb Partneriaeth (Compact oedd y teitl blaenorol) yn 2004. Bydd y cytundeb hwn yn cymryd lle'r Compact blaenorol ac unrhyw godau ymarfer newydd a ddatblygwyd o ganlyniad i'r cytundeb. Caiff y cytundeb hwn ei reoli gan Bwyllgor Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth.

Penderfynwyd ar gynnwys y cytundeb hwn drwy ymgynghori â'r Trydydd Sector, Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy, Staff y Trydydd Sector, Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chynghorwyr Bwrdeistref Sirol Conwy.

c. Yr angen am gytundeb newydd

Teimlwyd bod yr hen gytundeb wedi dyddio a bod angen ei adnewyddu oherwydd y newidiadau sylweddol a gafwyd yn y ddau sector yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf.

Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod yr heriau canlynol yn codi wrth gydweithio:

- Ymgynghori a Chynrychioli
- Cyfathrebu
- Partneriaeth
- Cyllid ac Adnoddau
- Parch a Chydraddoldeb
- Gwybod am y Trydydd Sector
- Rhannu Gwybodaeth
- Darparu Gwasanaethau
- Cymorth

Mae'r egwyddorion wedi'u datblygu o ganlyniad i'r heriau sydd wedi'u nodi a byddwn yn eu dilyn er mwyn gwella'r berthynas.

Dyma oedd y farn am y berthynas rhwng y Trydydd Sector a CBS Conwy:

- 14% Rhagorol
- 41% Da
- 34% Gweddol dda
- 6% Gwael
- 3% Gwael iawn
- 3% Ddim yn gwybod

Yn gyffredinol, mae'r berthynas yn eithaf da gan fod 55% wedi datgan bod y berthynas yn Rhagorol neu'n Dda ond mae angen gweithio ar y berthynas o hyd gan fod 43% yn credu ei bod yn Weddol dda/Gwael/Gwael iawn. (Mae hyn yn gwneud cyfanswm o 101% oherwydd talgrynnu)

Mae mwy o fanylion yn yr adroddiad llawn am yr ymgynghoriad.

Yr 8 Egwyddor a Rennir

a. Yr 8 egwyddor a rennir


Penderfynwyd bod yr egwyddorion canlynol yn allweddol i ddatblygu'r berthynas rhwng y Trydydd Sector a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Maent wedi'u dewis ar sail yr heriau sydd wedi'u nodi gan yr holl Bartneriaid.

- 1. Partneriaeth** rhaid cael perthynas ymddiriedus gadarn rhwng y Partneriaid er mwyn cyflawni ein hymrwymiaidau cyffredin a darparu gwasanaethau er budd y gymuned leol. Mae rolau cydategol a gwahanol gan yr holl bartneriaid.
- 2. Annibyniaeth** cydnabyddir bod y Trydydd Sector yn annibynnol.
- 3. Amrywiaeth** dylid parchu a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau, yr amrywiaeth a'r gallu ymhlith y partneriaid.
- 4. Atebolrwydd** mae cyfrifoldebau a chyfyngiadau penodol gan yr holl bartneriaid ond mae angen iddynt weithredu mewn modd tryloyw, cywir a gwrthrychol.
- 5. Cydraddoldeb** derbynnir ei bod yn bwysig hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb ac y dylid rhoi'r un ystyriaeth a pharch i'r holl bartneriaid.
- 6. Cyfathrebu** cydweithio'n barhaus i gyfathrebu'n well, bod yn fwy agored a rhannu'r arferion gorau rhwng yr holl bartneriaid.
- 7. Cynnwys y Gymuned** mae hawl gan bob partner i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a byddant yn cyflawni rôl werthfawr wrth ddatblygu polisiau a gwasanaethau.
- 8. Herio** derbynnir bod hawl gan bartneriaid i herio prosesau a materion sy'n effeithio arnynt: rhaid i'r holl bartneriaid fod yn barod i gael eu herio

Troi Egwyddorion a Rennir yn Flaenoriaethau a Rennir

Gall yr holl bartneriaid weithio ar sail yr wyth egwyddor o ddydd i ddydd, ond er mwyn rhoi rhai o'r egwyddorion ar waith yn fwy effeithlon a chael mwy o effaith, mae blaenoriaethau a rennir wedi'u pennu drwy ymgynghori.

Y blaenoriaethau a rennir sydd wedi'u pennu drwy ymgynghori yw:



Cyflwynir y blaenoriaethau hyn yn raddol er mwyn sicrhau bod modd neilltuo digon o adnoddau i fynd â'r maen i'r wal.

Sefydlir grŵp tasg a gorffen i gyflawni pob un o'r blaenoriaethau. Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Trydydd Sector a CBS Conwy.

Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth

Er mwyn cyflawni'r cytundeb hwn bydd angen:

- Strwythurau clir ar gyfer monitro, gwerthuso ac adolygu
- Perthynas gadarn rhwng y Trydydd Sector a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

a. Monitro, gwerthuso ac adrodd

- Cyfrifoldeb Pwyllgor Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth fydd gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth hwn
- Bydd Pwyllgor Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth yn gyfrifol am sefydlu unrhyw grwpiau tasg a gorffen i gyflawni unrhyw un o'r blaenoriaethau a rennir
- Datblygir camau gweithredu clir ar gyfer pob blaenoriaeth a rennir, gyda pherchnogion ac amserlenni ar eu cyfer. Bydd y rhain yn sail ar gyfer monitro a gwerthuso
- Caiff y cynlluniau gweithredu eu monitro ddwywaith y flwyddyn a'u gwerthuso'n flynyddol
- Rhoddir adroddiad blynyddol am gynnydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau a Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
- Bydd Grŵp Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth yn adolygu ac yn adnewyddu'r Cytundeb Partneriaeth bob blwyddyn

b. Datrys anghydfodau

Mae'n bosibl y bydd anawsterau'n codi wrth weithredu'r Cytundeb Partneriaeth. Mae angen proses ar gyfer yr holl bartneriaid i herio a datrys anghydfodau. Mae'r rhan fwyaf o broblemau'n ganlyniad i ffactorau ehangach y mae angen eu nodi a delio â nhw mewn ffordd gymodlon.

Disgwylir i'r holl bartneriaid ddilyn y Dulliau Effeithiol o Ddatrys Anghydfodau sydd wedi'u haddasu o *Fighting the Good Fight: Effective Dispute Resolution Tactics* y rhaglen Compact Advocacy (**Atodiad A**).

Mae'r broses ar gyfer datrys anghydfodau yn **Atodiad B**.

Sut i gymryd rhan

a. Aelodau Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy

Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy wedi llofnodi'r Cytundeb Partneriaeth hwn ar eich rhan felly mae'r Cytundeb hwn yn eich cynnwys yn barod.

Mae nifer o ffyrdd i chi gymryd rhan:

- Holi Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy ynghylch cynrychioli'r Trydydd Sector ar Bwyllgor Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth neu unrhyw grwpiau tasg a gorffen sydd wedi'u sefydlu i gyflawni'r blaenoriaethau a rennir
- Cymryd rhan yn yr adolygiad blynyddol o'r Cytundeb Partneriaeth

b. Pobl eraill heblaw Aelodau Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy

Gallwch lofnodi'r Cytundeb Partneriaeth hwn drwy lenwi'r Ffurflen Llofnodi (Atodiad C)

Gallwch gymryd rhan yn yr un ffordd ag Aelodau Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy ond dylech drafod hyn â'r Swyddog Cynrychioli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

c. Staff y Trydydd Sector a Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ni allwch lofnodi'r cytundeb hwn fel unigolion gan fod hyn yn digwydd ar sail sefydliadol.

Gallwch ddod yn Hyrwyddwr i'r Cytundeb Partneriaeth a hyrwyddo'r Cytundeb Partneriaeth hwn yn eich Gwasanaeth/Sefydliad.

ch. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Cynghorwyr Sir

Gallwch gymryd rhan mewn dwy ffordd:

- Bydd adroddiad am waith Pwyllgor Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau bob blwyddyn. Hyd yn oed os nad ydych yn aelod o'r pwyllgor hwn, gallwch fod yn bresennol a datgan eich barn.
- Holi Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau ynghylch bod yn gynrychiolydd ar Bwyllgor Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth neu unrhyw grwpiau tasg a gorffen sydd wedi'u sefydlu i gyflawni'r blaenoriaethau a rennir.

Atodiad A

Dulliau Effeithiol o Ddatrys Anghydfodau*

1. Cadw'ch tŷ mewn trefn

Bydd gennych well cyfle i ddatrys anghydfod yn llwyddiannus os sicrhewch eich bod yn cadw at gytundebau ariannu, yn parchu egwyddorion y Cytundeb Partneriaeth ac yn cyflawni rhwymedigaethau ariannol. Mae hyn yn cynnwys anfon adroddiadau'n brydlon a chadw cofnod ysgrifenedig o bob math o gyfathrebu.

2. Atal yw'r feddyginiaeth orau

Os ydych yn pryderu am eich trefniadau ariannu neu'ch perthynas â chorff cyhoeddus, cymerwch gamau cyn i broblem godi. Darllenwch y Cytundeb Partneriaeth ac unrhyw godau ymarfer a chychwyn deialog. Os gallwch drafod yn adeiladol cyn i rywbeth droi'n broblem, bydd gennych well cyfle i'w ddatrys.

3. Herio'n gynnar

Po fwyaf o amser a aiff heibio ar ôl gwneud penderfyniad, mwyaf anodd fydd ei newid. Os yw'r gyfraith gyhoeddus wedi'i thorri, rhaid cyflwyno her yn y llys yn brydlon a dim mwy na thri mis ar ôl gwneud y penderfyniad.

4. Gwybod beth yw'ch amcanion

Rhaid i chi wybod beth rydych yn anhapus yn ei gylch a beth rydych am ei gyflawni. Cadwch bethau mor syml ag sy'n bosibl, a cheisiwch fod yn realistig.

5. Bod yn broffesiynol

Er bod teimladau'n gallu corddi, rydych yn fwy tebygol o gael eich dymuniad os yw'ch sefydliad yn cael ei weld yn un proffesiynol, effeithiol a hawdd cydweithio ag ef.

6. Ystyried yr holl opsiynau


Mae gan bob sefydliad hawl i fod yn annibynnol a rheoli ei faterion ei hun, ond mae rhai'n amharod i gael eu gweld yn mynd wyneb yn wyneb â'u corff ariannu. Gallwch godi materion drwy Grŵp Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth os ydych wedi dilyn y broses ar gyfer datrys anghydfodau sydd wedi'i chymeradwyo.

7. Cael cymorth

Mae'n fuddiol cael barn gan rywun o'r tu allan am yr anghydfod. Gallwch ddefnyddio corff eirioli os oes arnoch angen cymorth.

* Wedi'i addasu o *Fighting the Good Fight: Effective Dispute Resolution Tactics* a gyhoeddwyd gan Compact Advocacy. Mae ar gael yn: www.compactvoice.org.uk

Atodiad B – Proses Datrys Anghydfodau



Atodiad C – Ffurflen Llofnodi



**Mae fy sefydliad yn dymuno llofnodi'r Cytundeb Partneriaeth
(Trydydd Sector a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)**

Drwy lofnodi'r Cytundeb Partneriaeth hwn rydym yn dangos ein bod yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ar sail yr egwyddorion a rennir a'r blaenoriaethau a rennir.

1.	Enw'r Sefydliad:									
2.	Statws:	<table border="1"> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Elusen Gofrestredig</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Grŵp Cymunedol</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Corff Gwirfoddol</td> </tr> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Corff Statudol</td> </tr> </table>	<input type="checkbox"/>	Elusen Gofrestredig	<input type="checkbox"/>	Grŵp Cymunedol	<input type="checkbox"/>	Corff Gwirfoddol	<input type="checkbox"/>	Corff Statudol
<input type="checkbox"/>	Elusen Gofrestredig									
<input type="checkbox"/>	Grŵp Cymunedol									
<input type="checkbox"/>	Corff Gwirfoddol									
<input type="checkbox"/>	Corff Statudol									
3.	Cyfeiriad:									
4.	Ffôn:									
5.	E-bost:									
6.	Enw Cysylltydd:									
7.	Swydd:									
8.	Llofnod:									
9.	Dyddiad:									
10.	A oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Aelod o Grŵp Cyflawni'r Cytundeb Partneriaeth?	<table border="1"> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Oes</td> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Nac oes</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> </table>	<input type="checkbox"/>	Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>			
<input type="checkbox"/>	Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>						
11.	A oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau a rennir?	<table border="1"> <tr> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Oes</td> <td><input type="checkbox"/></td> <td>Nac oes</td> <td><input type="checkbox"/></td> </tr> </table>	<input type="checkbox"/>	Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>			
<input type="checkbox"/>	Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>						

Ar ôl ei llenwi anfonwch y ffurflen hon at:

Rheolwr Cydlynu Partneriaethau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU.